

# Diweddariad yr Hydref

## Dadansoddiad Economaidd-gymdeithasol Cymru 2020

*Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*

**Llywodraeth Cymru**

17 Tachwedd 2020

---

### Cynnwys

<b>Crynodeb Gweithredol.....</b>	<b>1</b>
<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>3</b>
<b>MAES BLAENORIAETH 1: Busnesau Cynhyrchiol a Chystadleuol .....</b>	<b>5</b>
<b>MAES BLAENORIAETH 2: Lleihau'r Ffactorau sy'n Arwain at Anghydraddoldeb Economaidd.....</b>	<b>13</b>
<b>MAES BLAENORIAETH 3: Cefnogi'r Broses o Bontio i Economi Ddi-garbon.....</b>	<b>19</b>
<b>MAES BLAENORIAETH 4: Cymunedau Iachach, Tecach a Mwy Cynaliadwy.....</b>	<b>22</b>

---

# Crynodeb Gweithredol

---

- Mae pandemig y coronafeirws, a'r ymateb polisi cyhoeddus i atal ei ledaeniad, wedi amharu'n ddifrifol ar economi Cymru ac economi ehangach y Deyrnas Unedig (DU). Ar ôl dau chwarter o dwf negyddol yn olynol ddechrau eleni (gyda chynnyrch domestig gros yn gostwng 19.8% yn yr ail chwarter), aeth economi'r DU yn swyddogol i mewn i ddirwasgiad. Yn ddiweddar, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi amcangyfrif bod economi'r DU wedi dod allan o'r dirwasgiad yn y trydydd chwarter, pan gynyddodd cynnyrch domestig gros 15.5%. Er hynny, mae cynnyrch domestig gros y DU yn dal i fod 9.7% yn is nag yr oedd cyn y pandemig.
- Mae natur y cyfyngiadau a'r mesurau diogelu iechyd a oedd yn angenrheidiol i reoli lledaeniad y feirws wedi arwain at effeithiau anghyfartal iawn ar draws sectorau a diwydiannau. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau cynnyrch negyddol ar rannau o'r "economi gymdeithasol", megis lletygarwch a hamdden – na all weithredu'n effeithiol gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol. Mae effaith negyddol wedi bod ar fasnach hefyd, gan amharu ar weithgarwch mewnforio ac allforio drwy gydol y pandemig hyd yma.
- Mewn ymateb i realiti'r pandemig, mae'r rhan fwyaf o fusnesau wedi gorfod addasu. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y nifer o bobl sy'n gweithio gartref a mwy o fasnachu ar-lein. Mae rhai pryderon y gallai newidiadau o'r fath roi busnesau bach o dan anfantais, am eu bod o bosibl yn brin o alluoedd digidol. Nid yw'n glir eto pa effaith y bydd y newid at weithio gartref yn ei chael ar gynhyrchiant.
- Yn sgil ansicrwydd ynghylch y dyfodol a gostyngiad mewn cynnyrch, mae buddsoddiadau busnes wedi lleihau'n sylweddol yn y DU ers dechrau pandemig y coronafeirws. Mae gostyngiadau o'r fath yn peri risg bosibl i gynlluniau a buddsoddiadau gan fusnesau a all helpu i gynyddu cynhyrchiant ar lefel cwmnïau a chefnogi'r broses bontio i economi fwy gwyrdd.
- Mae effeithiau anghyfartal iawn wedi bod o fewn y farchnad lafur hefyd. Mae'r gweithwyr hynny a gyflogir yn y sectorau yr amharwyd fwyaf arnynt wedi teimlo effaith negyddol anghymesur o ran cyflogaeth, incwm, a cholli oriau gwaith. Mae demograffeg llawer o'r gweithwyr hyn yn golygu bod effeithiau o'r fath hefyd yn cael eu teimlo'n fwy gan bobl ifanc, menywod, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a'r rhai ag anabledau.
- Yn ogystal ag effeithiau gwahaniaethol yn y farchnad lafur, mae effeithiau gwahaniaethol hefyd wedi bod ym myd addysg. Mae'r argyfwng wedi amharu'n fwy ar addysg y rhai o gefndiroedd tlotach. Yn ôl tystiolaeth o argyfyngau blaenorol, mae pryderon difrifol y gallai'r effeithiau gwahaniaethol hyn ddwysáu

anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli ac arwain at niwed hirdymor i iechyd, perfformiad cyflogaeth, a lles y rhai yr effeithiodd yr argyfwng yn negyddol arnynt.

- Mae'r argyfwng hefyd wedi cael effaith anghyfartal ar sefyllfa ariannol teuluoedd. Er bod y gyfradd gynilo gyffredinol wedi cynyddu yn y DU ers dechrau'r pandemig, mae tystiolaeth bod cartrefi tlotach yn llai tebygol o fod wedi gwella eu sefyllfa ariannol yn ystod yr argyfwng a'u bod yn fwy tebygol o fod yn defnyddio cynilion yr oedd ganddynt yn barod a chynhyrchion dyled na chartrefi cyfoethocach. Er bod cyfyngiad amser arnynt ar hyn o bryd, mae ymgodiadau credyd cynhwysol wedi darparu cymorth mawr ei angen i gartrefi sy'n dibynnu arno. I'r rhai sy'n gadael cyflogaeth, byddai'r polisïau lles presennol yn dal i arwain at ostyngiad sylweddol yn incwm y cartref i lawer o grwpiau.
- Mae hi o bosibl yn rhy gynnar o hyd i ddeall yr effaith y bydd y pandemig yn ei chael ar allyriadau yn fyd-eang ac yng Nghymru wrth edrych at y dyfodol. Amcangyfrifir y bydd allyriadau eleni 8% yn is na 2019. Serch hynny, mae lefelau allyriadau cronol yn bwysicach er mwyn osgoi effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd na gostyngiadau mewn un flwyddyn yn unig. Mae'r cynnydd yn y nifer sy'n gweithio gartref yn cynnig y posibilrwydd o leihau allyriadau teithio yn y dyfodol ond gallai hynny gael ei wrthbwysu gan gynnydd yn allyriadau adeiladau preswyl yn gysylltiedig â defnydd ynni.
- Mae'r pandemig wedi tynnu sylw pellach at anghydraddoldebau iechyd a oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru, ac mae wedi'u dyfnhau. Mae'r anghydraddoldebau hyn i'w gweld ar draws ystod o nodweddion gwarchoddedig, megis rhyw, oedran, ac ethnigrwydd. Mae'r cynnydd sydyn yn nifer y bobl sy'n dweud bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl yn peri pryder arbennig.
- Yn olaf, mae pwysigrwydd cysylltedd ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol er mwyn cael gafael ar nwyddau a defnyddio gwasanaethau, yn ogystal â'r gallu i weithio ac astudio o bell yn effeithiol. Er bod manteision yn sgil newid o'r fath, mae perygl o roi'r rhai sydd heb gysylltedd o dan anfantais bellach. Yn ogystal â materion yn ymwneud â chysylltedd yng nghefn gwlad, mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl hŷn a phobl economaidd anweithgar yn llai tebygol o fod â'r rhyngwyd gartref – a allai wneud iddynt deimlo'n fwy ynysig ac unig.

# Cyflwyniad

---

Ym mis Chwefror 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru broses ymgynghori ar fframwaith buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar gyfer y dyfodol. Yn y fframwaith drafft, nodwyd pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer cyllid rhanbarthol yn y dyfodol, a'u nod oedd rhoi sylw i'r materion mwyaf brys y mae Cymru yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Paratowyd dadansoddiad economaidd-gymdeithasol lefel uchel i gyd-fynd â'r broses ymgynghori, i roi gwybodaeth am dueddiadau a dadansoddiadau sy'n berthnasol i'r meysydd blaenoriaeth.<sup>1</sup>

Ers cyhoeddi'r ddogfen y tro cyntaf, mae pandemig y coronafeirws a'r ymateb polisi cysylltiedig wedi cael effaith economaidd a chymdeithasol eithriadol ledled Cymru. Bydd hyn yn arwain at oblygiadau pwysig ar gyfer gwariant datblygu rhanbarthol a fydd yn disodli cyllid yr Undeb Ewropeaidd (UE) y flwyddyn nesaf. Felly, mae'r ddogfen hon yn rhoi diweddariad cryno ar effeithiau posibl argyfwng y coronafeirws o ran iechyd y cyhoedd a'r effeithiau a ragwelir, yng nghyd-destun y pedwar maes blaenoriaeth sydd wedi'u nodi yn y fframwaith ar hyn o bryd.

Roedd y cyflenwyr (gydag effaith y gadwyn gyflenwi fyd-eang, cwmnïau yn gorfod cau a mesurau lliniaru angenrheidiol yn amharu ar allu cwmnïau i gynhyrchu i bob pwrpas) a'r defnyddwyr (gyda defnyddwyr yn ymatal rhag gwario oherwydd effaith ar incwm a newidiadau i'w ffordd o fyw/ymddygiad) yn teimlo effaith economaidd gychwynol yr argyfwng. Wrth i gartrefi a chwmnïau ymateb i'r effeithiau hyn, maent wedi cael eu dwysáu ymhellach, gyda chwmnïau yn buddsoddi llai/galw am lai o lafur a chartrefi yn defnyddio llai, naill ai drwy gynilo mwy oherwydd ansicrwydd neu oherwydd eu bod wedi colli incwm o ganlyniad i amgylchiadau economaidd yn dirywio.

Mae effaith gymdeithasol y coronafeirws wedi bod yn sylweddol hefyd, gyda'r mesurau diogelu iechyd a gyflwynwyd i fynd i'r afael â'r feirws a'r feirws ei hun yn amharu ar gynlluniau a disgwyliadau unigolion yn sylweddol, rhagor o bobl yn teimlo'n unig ac yn ynysig, a dibynnu mwy ar sgiliau a chysylltedd digidol.

Mae'n bwysig datgan ar y dechrau fel hyn fod llawer iawn o ansicrwydd o hyd ynghylch y math o effaith a gaiff ymateb iechyd y cyhoedd wrth gyfyngu ar drosglwyddo'r feirws yn y gymuned, a pha mor ddifrifol fydd yr effaith honno. Mae hyn yn rhannol oherwydd natur eithriadol yr argyfwng, gyda mesurau'n cyfyngu ar gynnyrch economaidd yn gyflym ac yn ddramatig. Ffactor arall sy'n cymhlethu hyn yw'r ffaith bod y gallu i benderfynu ar nifer o'r ymatebion cyllidol uniongyrchol angenrheidiol wrth ymateb i'r pandemig yng Nghymru (yn arbennig yng nghyswllt cymorth cyflogaeth) yn dod o dan gylch gwaith Llywodraeth y DU ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, bydd angen i Lywodraeth Cymru fanteisio ar

---

<sup>1</sup> Mae'r dogfennau ymgynghori, sy'n cynnwys y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol, ar gael yma: <https://llyw.cymru/fframwaith-buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru>

yr holl ysgogiadau sydd ar gael i baratoi ar gyfer y newidiadau tymor hwy posibl a ddaw o ganlyniad i'r pandemig hwn.

# MAES BLAENORIAETH I: Busnesau Cynhyrchiol a Chystadleuol

---

## Y Cyd-destun

Roedd sut i gynyddu cyfraddau twf cynhyrchiant yn bwnc a oedd yn peri cryn bryder cyn pandemig y coronafeirws. Cafodd argyfwng ariannol byd-eang 2008/9, a'r dirwasgiad ar ôl hynny, effaith ar gynhyrchiant. Gwelwyd gostyngiad mewn cynhyrchiant llafur yn ystod y dirwasgiad yn y DU, a methodd â thyfu ar y gyfradd twf yn ôl y patrwm cyn yr argyfwng (~2% y flwyddyn). Arweiniodd hyn at gynhyrchiant llafur ar ddiwedd 2018 a oedd yn llawer iawn is na'i lwybr twf cyn yr argyfwng ariannol byd-eang.<sup>2</sup>

## Cynnyrch economaidd

Yn ystod dau chwarter cyntaf 2020, crebachodd economi'r DU, sy'n golygu ei bod wedi mynd i mewn i ddirwasgiad. Gostyngodd cynnyrch domestig gros y DU 2.5% yn ystod y chwarter cyntaf, a dilynwyd hynny â'r gostyngiad cyflymaf erioed yn ystod yr ail chwarter, sef 19.8%. Roedd hyn yn adlewyrchu'r effaith yr oedd y cyfyngiadau a gyflwynwyd i reoli pandemig y coronafeirws wedi'i chael ar yr economi.<sup>3</sup> Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan ONS yn amcangyfrif bod cynnyrch domestig gros wedi cynyddu 15.5% yn y trydydd chwarter. Er hynny, mae'n dal i fod 9.7% yn is nag yr oedd cyn y pandemig.<sup>4</sup> Gwelodd dangosyddion cynnyrch tymor byr gwasanaethau'r farchnad, cynhyrchu ac adeiladu yng Nghymru y gostyngiad chwarterol mwyaf yn ail chwarter 2020 ers dechrau'r gyfres. Yn ystod yr ail chwarter, gostyngodd mynegai gwasanaethau'r farchnad 14.8% (cyfwerth â gostyngiad o 6.0% o un flwyddyn i'r llall); roedd y mynegai cynhyrchu yn dangos gostyngiad o 13.7% (-4.2% o un flwyddyn i'r llall); ac roedd y mynegai adeiladu wedi gostwng 31.2% (-8.8% o un flwyddyn i'r llall).<sup>5</sup>

Mae amcangyfrifon cynnyrch domestig gros misol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn wedi digwydd yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill, pan oedd mesurau'r cyfyngiadau symud fwyaf llym ym mhob un o bedair gwlad y DU.

---

<sup>2</sup> Cyfwerth â 18.3% yn is o ran cynnyrch fesul awr, ac 16.0% yn is o ran cynnyrch fesul gweithiwr. Gweler: ONS. (2019, Ebrill 5). Labour productivity, UK: October to December 2018

<sup>3</sup> ONS. (2020, Medi 30). GDP quarterly national accounts, UK: April to June 2020. Cyrchwyd o <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/quarterlynationalaccounts/apriltojune2020>

<sup>4</sup> ONS. (2020, Tachwedd 12). GDP first quarterly estimate, UK: July to September 2020.


<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru. (2020, Hydref 22). Dangosyddion cynnyrch tymor byr: Ebrill - Mehefin 2020.

## Buddsoddi

Mae ffigurau cyfrifon gwladol y DU yn dangos bod buddsoddi wedi gostwng 21.6% yn ystod chwarter cyntaf 2020, a buddsoddiadau busnes (gyda gostyngiad o 26.5%) oedd yn bennaf gyfrifol am y gostyngiad hwn.<sup>6</sup> Er bod ansawdd y buddsoddi (o ran natur ac ansawdd arloesi), a gallu cwmnïau a llafur lleol i gymhwyso dulliau arloesi, yn debygol o fod yn ffactorau hanfodol o ran sicrhau bod manteision cynhyrchiant yn deillio o fuddsoddiadau o'r fath,<sup>7</sup> gallai gostyngiadau sylweddol yn y lefelau buddsoddi cyffredinol beryglu arenillion cynhyrchiant yn y dyfodol.

### Ffigur 1: Buddsoddiadau busnes y DU wedi lleihau 26.5% yn Ch2 2020

Gwariant buddsoddi busnesau'r DU o gyfrifon cenedlaethol chwarterol cynnyrch domestig gros  
(2019 Ch4=100)



Ffynhonnell: ONS

Roedd cwmnïau yn dweud mai ansicrwydd macro-economaidd a chyfyngiadau ariannol oedd y ddau beth mwyaf arwyddocaol a oedd yn eu hatal rhag dewis arferion a thechnolegau newydd yn ôl un arolwg a gynhaliwyd yn y DU.<sup>8</sup> Pan ofynnwyd ym mha ffyrdd y gallai'r llywodraeth helpu cwmnïau orau i arloesi ym maes cynnyrch a phrosesau, roedd y cwmnïau bach a chanolig a'r cwmnïau mawr a gafodd eu holi yn ffafrio grantiau/talebau a chyflwyno cynlluniau treth newydd. Grantiau oedd yr ymateb polisi mwyaf poblogaidd ar gyfer cwmnïau

<sup>6</sup> ONS. (2020, Medi 30). GDP quarterly national accounts, UK: April to June 2020.

<sup>7</sup> Huggins, R., a Izushi, H. (2020). Innovation and productivity: a multi-perspective assessment. O: Productivity Perspectives. Edward Elgar Publishing Limited.

<sup>8</sup> Riom, C., a Valero, A. (2020). The Business Response to Covid-19: the CEP-CBI survey on technology adoption. Y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd. Nodyn: Cynhaliwyd arolwg y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd ym mis Gorffennaf 2020.

bach yn arbennig. Roedd y rhan fwyaf o gwmnïau canolig/mawr hefyd yn rhestru buddsoddi mewn sgiliau digidol/proffesiynol y gweithlu iau fel rhywbeth a fyddai o fudd i helpu i arloesi ym maes prosesu, ac roedd bron i hanner yn gweld buddsoddi yn y seilwaith telathrebu yn ymateb polisi pwysig arall.

## Effaith ar sectorau

Cofnodwyd y gostyngiadau mwyaf mewn cynnyrch yn ystod dau chwarter cyntaf 2020 ar gyfer y sectorau gwasanaethau, cynhyrchu ac adeiladu yn y DU.<sup>9</sup> Y sector adeiladu a gofnododd y gostyngiad cymharol mwyaf o bob un o'r tri sector. Amcangyfrifir bod cynnyrch y sector wedi gostwng 37.6% yn ystod hanner cyntaf 2020, ac roedd cynnyrch y sectorau gwasanaethau a chynhyrchu wedi gostwng 21.3% a 18.1% yn y drefn honno.<sup>10</sup>

Er bod pandemig y coronafeirws wedi cael effaith negyddol ar bron iawn yr holl ddiwydiannau gwasanaeth, mae rhai diwydiannau gwasanaeth penodol wedi teimlo effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y cyfyngiadau symud yn fwy dwys. Gostyngodd cynnyrch llety a gwasanaethau bwyd yn sylweddol yn ystod ail chwarter 2020, a hynny 85.7%. Gostyngodd cynnyrch gwasanaethau eraill (sy'n cynnwys nifer o is-sectorau'r economi diwylliant a hamdden) 45.1% yn ystod yr un cyfnod.<sup>11</sup>

Mae gweithgynhyrchu yn cynrychioli cyfran uwch o gyfanswm gwerth ychwanegol gros yng Nghymru (17% yn 2018) nag yn unrhyw wlad arall yn y DU neu ranbarth yn Lloegr<sup>12</sup>. Mae ffigurau'r ONS yn dangos bod y pandemig wedi effeithio ar y rhan fwyaf o isddiwydiannau gweithgynhyrchu yn y DU. Dim ond 17 o blith 55 o isddiwydiannau gweithgynhyrchu sydd wedi gweld lefelau cynnyrch uwch ym mis Gorffennaf nag ym mis Chwefror (cyn i'r cyfyngiadau gael eu cyflwyno).<sup>13</sup>

Mae data'r ONS ar y coronafeirws a'r effaith ar gynnyrch economi'r DU yn dangos bod cynnyrch diwydiannau cynnyrch bwyd 3.8% yn is ym mis Awst nag ym mis Chwefror ac roedd cynnyrch diodydd alcohol a diodydd meddal 3.7% yn is.<sup>14</sup> Roedd cynnyrch y sector offer trafniadaeth 25.8% yn wannach ym mis Awst o'i gymharu â mis Chwefror. Roedd cynnyrch yr is-sector cerbydau modur, trelars a hanner-trelars 26.1% yn is a'r is-sector aer, llongau gofod a pheiriannau cysylltiedig wedi gostwng 27.8%.<sup>15</sup> Dywedodd y Society of Motor Manufacturers

<sup>9</sup> ONS. (2020, Medi 11). GDP monthly estimate, UK: July 2020.

<sup>10</sup> ONS. (2020, Medi 30). GDP quarterly national accounts, UK: April to June 2020.

<sup>11</sup> Ibid.

<sup>12</sup> StatsCymru. (2019, Rhagfyr 23). Gwerth Ychwanegol Gros yn ôl ardal a diwydiant.

<sup>13</sup> ONS. (2020, Medi 11). Coronavirus and the impact on output in the UK economy: July 2020.

<sup>14</sup> ONS. (2020, Hydref 9). Coronavirus and the impact on output in the UK economy: August 2020.

<sup>15</sup> ONS. (2020, Hydref 9). Coronavirus and the impact on output in the UK economy: August 2020.



and Traders (SMMT) fod gweithgynhyrchu ceir 44.6% yn is ym mis Awst 2020 o'i gymharu â'r un mis y llynedd, oherwydd galw byd-eang gwan parhaus.<sup>16</sup>

## Ymddygiad y cwsmer a'r sector manwerthu

Wrth edrych ar ddata ar lefel y DU, gallwn weld bod gwerthiant y sector manwerthu (o ran swmp) wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y misoedd ar ôl y mesurau diogelu iechyd cyntaf (tua 20% yn is ym mis Ebrill). Ond roedd y ffigurau wedi gwella'n dda yn y misoedd dilynol ac roeddent yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig (Chwefror) ym mis Gorffennaf.<sup>17</sup> Ond, nid oedd hyn wedi effeithio ar bob sector manwerthu yr un fath. Mae nifer yn dal i werthu llai nag oeddent cyn y pandemig (fel siopau adrannol a siopau dillad). Mae'n ddiddorol iawn bod y sector manwerthu a oedd wedi gweld twf cyflym yn ystod y misoedd ar ôl y cyfyngiadau symud – manwerthu heb fod mewn siopau – yn sector lle mae gwerthiant ar-lein yn cyfrif am y rhan fwyaf o gyfanswm y gwerthiannau. Yn wir, ym mis Awst, roedd twf gwerthiannau ar-lein o un flwyddyn i'r llall ar gyfer pob sector manwerthu yn 51.6%.<sup>18</sup>

Awgrymodd un astudiaeth, a ddefnyddiodd ddata o 2018, fod cyfran cyfanswm y trosiant a amcangyfrifir a ddaw o werthiannau e-fasnach yn cynyddu yn ôl maint y busnes yn y DU, a bod microfusnesau/busnesau bach yn llai tebygol o gael gwefan o gwbl (naill ai eu gwefan eu hunain neu wefan trydydd parti).<sup>19</sup> Yn 2018, roedd microfentrau yn llai tebygol o ddefnyddio gwefan, gyda dim ond 45% yn defnyddio gwefan o gymharu ag 84% o'r rhai a oedd â 10 neu ragor o gyflogion.<sup>20</sup> Felly mae'n bosibl bod cwmnïau mwy mewn sefyllfa well i gynnal a thyfu ei gweithgarwch busnes wrth i fwy a mwy o ddefnyddwyr siopa ar-lein.

## Effaith ar ddulliau gweithio (gweithio gartref)

Mae effaith pandemig y coronafeirws wedi gorfodi cwmnïau i hwyluso trefniadau i'w gweithwyr weithio gartref. Dywedodd cynifer â thri chwarter cwmnïau, mewn arolwg a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2020, fod staff bellach yn gweithio gartref ar ryw ffurf (yn rhannol neu'n gyfan gwbl).<sup>21</sup>

Yn ôl yr Arolwg o'r Farchnad Lafur (a lanswyd gan yr ONS ddiwedd mis Mawrth 2020) ym mis Ebrill 2020, amcangyfrifwyd bod 40.7% o'r rhai a oedd mewn gwaith yng Nghymru yn gwneud rhywfaint o'u gwaith gartref, o'i gymharu â

<sup>16</sup> SMMT. (n.d.). Manufacturing Data. Cyrchwyd Hydref 21, 2020, oddi ar The Society of Motor Manufacturers and Traders: <https://www.smmt.co.uk/vehicle-data/manufacturing/>

<sup>17</sup> ONS. (2020, Medi 18). Retail sales, Great Britain: August 2020.

<sup>18</sup> ONS. (2020, Medi 18). Retail sales, Great Britain: August 2020.

<sup>19</sup> Nguyen, D., a Tong, M. (2020, Hydref 19). Are small businesses ready to compete as consumers move online? Cyrchwyd o Economics Observatory: <https://www.coronavirusandtheeconomy.com/are-small-businesses-ready-compete-consumers-move-online>

<sup>20</sup> ONS. (2019, Tachwedd 29). E-commerce and ICT activity, UK: 2018.

<sup>21</sup> Riom, C., a Valero, A. (2020). The Business Response to Covid-19: the CEP-CBI survey on technology adoption. Y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd.

46.6% yn y DU gyfan.<sup>22</sup> Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, cyn y pandemig, yn 2019, dim ond 4.4% o bobl yng Nghymru oedd yn dweud eu bod yn gweithio gartref yn bennaf.<sup>23</sup> Amcangyfrifir bod y ffigur hwnnw yn agos at gyfran y gweithwyr a allai weithio gartref yng Nghymru ar sail nodweddion rhai proffesiynau.<sup>24</sup>

Mae rhai sectorau mewn gwell sefyllfa i alluogi gweithwyr i weithio gartref, ond mae gofyn i sectorau eraill gael gweithwyr ar y safle – fel nifer o rolau sy'n delio â chwsmeriaid yn yr economi gymdeithasol. Roedd galwedigaethau sy'n gysylltiedig yn draddodiadol ag unigolion sydd â lefelau sgiliau uwch yn fwy tebygol o weithio gartref na gweithwyr sydd â lefelau sgiliau is;<sup>25</sup> hefyd, mae cydberthynas gadarnhaol rhwng parodrwydd rhai galwedigaethau i weithio gartref a galwedigaethau sy'n talu cyflogau uwch.<sup>26</sup>

Mae'n edrych yn debyg bod pandemig y coronafeirws wedi newid agwedd cwmnïau a gweithwyr ynghylch gweithio gartref. Cynhaliwyd arolwg gan Sefydliad y Cyfarwyddwyr ym mis Medi, a gofynnwyd i gyfarwyddwyr cwmnïau faint o'r newidiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig yr oeddent yn bwriadu parhau â nhw yn y dyfodol. Dywedodd bron i dri chwarter (74%) o gyfarwyddwyr cwmnïau y byddent yn parhau i gynnig mwy o arferion gweithio gartref, ar ryw ffurf neu'i gilydd, ar ôl i bandemig y coronafeirws ddod i ben. Dywedodd ychydig dros ddau o bob pump ohonynt (43%) y byddent yn parhau i gynnig mwy o ddewisiadau gweithio hyblyg.<sup>27</sup>

Mae deall pa effaith y bydd mwy o bobl yn gweithio gartref yn debygol o'i chael ar lefelau cynhyrchiant presennol a thueddiadau twf yn y dyfodol yn dal i fod yn ansicr iawn ar hyn o bryd. Mae tystiolaeth o arolwg BICS yr ONS yn awgrymu, rhwng 7 a 20 Medi, fod gan fusnesau'r DU nad oedd wedi rhoi'r gorau i fasnachu yn barhaol 26% yn fwy o staff yn gweithio gartref o ganlyniad i bandemig y coronafeirws, a bod tua chwarter (24%) wedi gweld gostyngiad mewn cynhyrchiant, o'i gymharu â 12% a oedd wedi gweld cynnydd.<sup>28</sup>

Ond, er gwaethaf yr effaith negyddol bosibl ar gynhyrchiant y gall cwmnïau fod yn ei gweld ar hyn o bryd o ganlyniad i gyfran uwch o weithio gartref, mae'n bwysig gwerthfawrogi annormaledd amodau gwaith y gweithwyr ar hyn o bryd.

---

<sup>22</sup> ONS. (2020, Gorffennaf 8). Coronavirus and homeworking in the UK: April 2020.

<sup>23</sup> ONS. (2020, Mawrth 24). Coronavirus and homeworking in the UK labour market: 2019.

<sup>24</sup> Taylor, K., a Griffith, R. (2020, Mai 23). Who can work from home and how does it affect their productivity? Cyrchwyd o Economics Observatory: <https://www.coronavirusandtheeconomy.com/question/who-can-work-home-and-how-does-it-affect-their-productivity>

<sup>25</sup> ONS. (2020, Gorffennaf 8). Coronavirus and homeworking in the UK: Ebrill 2020.

<sup>26</sup> Costa Dias, M., Farquharson, C., Griffith, R., Joyce, R., a Levell, P. (2020). Getting people back into work Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

<sup>27</sup> Sefydliad y Cyfarwyddwyr. (2020, Hydref 5). Home working here to stay, new IoD figures suggest. Cyrchwyd o <https://www.iod.com/news-campaigns/news/articles/Home-working-here-to-stay-new-IoD-figures-suggest>

<sup>28</sup> ONS. (2020, Hydref 8). Coronavirus and the economic impacts on the UK: 8 October 2020.

Fel sy'n wir am newidiadau eraill yn ystod y pandemig, bydd manteision ac anfanteision gweithio gartref yn wahanol ar draws y gweithlu. Mae nifer o weithwyr yn cael eu gorfodi i weithio gartref yn gyson, yn hytrach nag yn dewis gweithio gartref (er enghraifft, o bryd i'w gilydd). Bydd gan nifer gyfrifoldebau gofalu hefyd ac amgylchedd nad yw'n addas iddynt weithio'n gynhyrchiol ynddo gartref.<sup>29</sup> Yn un o'r ychydig astudiaethau ynghylch gweithio gartref a gynhaliwyd cyn y pandemig, roedd y dystiolaeth yn awgrymu y gallai arwain at fanteision cyffredinol o ran cynhyrchiant i gwmnïau o dan amodau penodol.<sup>30</sup> Mae'r astudiaethau hyn yn cyfeirio at ddewis, gyda gweithwyr sy'n cael manteision o ran bod yn gynhyrchiol drwy weithio gartref yn dewis gwneud hynny; rhywbeth nad yw'r pandemig yn caniatáu ar ei gyfer ar hyn o bryd.

Gallai fod manteision yn sgil cydleoli a fydd yn anos eu hefelychu wrth weithio o bell. Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion gweithio mewn gweithle sy'n meithrin creadigrwydd unigol a chyfunol (sy'n bwysig ar gyfer arloesi) ac sy'n hwyluso'r broses o ffurfio a datblygu perthynas weithio effeithiol (cyfalaf cymdeithasol).<sup>31</sup> Fodd bynnag, dylai'r cyfle i ddewis dros eich hun fod yn fwy amlwg ar ôl y pandemig, a dylai nifer o'r ffactorau sy'n cael effaith negyddol ar gynhyrchiant gartref leihau dros amser (gyda chyfrifoldebau gofal plant yn lleihau a gweithwyr mewn sefyllfa well i weithio gartref yn effeithiol). Mae'n debygol bod y rheidrwydd i weithio gartref wedi helpu nifer o weithwyr i ddatblygu sgiliau digidol a fydd o fantais iddynt ar ôl y pandemig.<sup>32</sup>

## Masnach ac allforio

Yn hanesyddol, mae masnach yn gostwng fwy na chynnyrch yn ystod unrhyw ddirywiad byd-eang.<sup>33</sup> Rhagfynegodd Sefydliad Masnach y Byd, yn ei ragolwg diweddaraf, y byddai masnach yn gostwng 9.2% yn 2020, ac y byddai'n cynyddu 7.2% yn 2021 – felly byddai'n dal i fod yn is na'i lefel cyn y pandemig.<sup>34</sup> Roedd masnach y byd wedi gostwng mwy na'r cynnyrch economaidd byd-eang yn ystod pob un o'r pum dirywiad economaidd byd-eang ers yr ail ryfel byd. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn ystod yr argyfwng ariannol byd-eang diwethaf, sydd wedi cael ei briodoli'n bennaf i lawer llai o alw gan ddefnyddwyr a chwmnïau am nwyddau sy'n para. Yn hanesyddol, er bod masnach wedi plymio yn ystod

<sup>29</sup> Gorlick, A. (2020, Mawrth 30). The productivity pitfalls of working from home in the age of COVID-19. Cyrchwyd o Stanford News: <https://news.stanford.edu/2020/03/30/productivity-pitfalls-working-home-age-covid-19/>

<sup>30</sup> Er enghraifft, gweler Bloom, N., Liang, J., Roberts, J., a Ying, Z. J. (2013). Does working from home work? Evidence from a Chinese experiment. NBER Working Paper Series: 18871.

<sup>31</sup> Haldane, A. (2020). Is Home Working Good For You?. Speech at Engaging Business Summit and Autumn Lecture.

<sup>32</sup> Ibid.

<sup>33</sup> Zymek, R. (2020, Mai 23). What happens to trade in a global downturn? Cyrchwyd o Economics Observatory: <https://www.coronavirusandtheeconomy.com/question/what-happens-trade-global-downturn>

<sup>34</sup> Sefydliad Masnach y Byd. (2020, Hydref 6). Trade shows signs of rebound from COVID-19, recovery still uncertain. Cyrchwyd o Sefydliad Masnach y Byd: [https://www.wto.org/english/news\\_e/pres20\\_e/pr862\\_e.htm](https://www.wto.org/english/news_e/pres20_e/pr862_e.htm)

cyfnodau o ddirywiad economaidd byd-eang, mae wedi ymadfer yn gyflym hefyd.<sup>35</sup>

Mae ymatebion i arolwg busnes coronafeirws yr ONS (ar gyfer 21 Medi-4 Hydref) yn awgrymu bod yr effaith ar fasnach yn dal i gael ei themlo yn y DU o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Nid yw'r rhan fwyaf o fusnesau'r DU yn mewnfario (roedd 84.0% o gwmnïau yn dweud nad oeddent wedi mewnfario nwyddau na gwasanaethau yn y 12 mis diwethaf) nac yn allforio (roedd 87.8% o gwmnïau yn dweud nad oeddent wedi allforio nwyddau na gwasanaethau yn ystod yr un cyfnod). Ond, ar gyfer y cwmnïau sy'n gwneud hynny, mae'n ymddangos bod y coronafeirws wedi gostwng faint o weithgarwch mewnfario ac allforio mae cwmnïau'n gyfrifol amdanynt. Roedd cyfran y cwmnïau allforio a oedd yn dweud eu bod yn allforio llai, neu ddim yn gallu allforio o gwbl, yn y pythefnos diwethaf yn 34.9% ac 19.1% yn y drefn honno, o'i gymharu â 2.4% a oedd yn dweud eu bod yn allforio mwy na'r arfer. Roedd cyfran y cwmnïau mewnfario a oedd yn dweud eu bod yn mewnfario llai na'r arfer neu nad oeddent wedi gallu mewnfario o gwbl yn y pythefnos diwethaf yn 22.0% a 3.0% yn y drefn honno, o'i gymharu â 9.5% a oedd yn dweud eu bod yn mewnfario mwy na'r arfer.<sup>36</sup>


---

<sup>35</sup> Zymek, R. (2020, Mai 23). What happens to trade in a global downturn? Cyrchwyd o: Economics Observatory: <https://www.coronavirusandtheeconomy.com/question/what-happens-trade-global-downturn>

<sup>36</sup> ONS. (2020, Hydref 22). Business Impact of COVID-19 Survey (BICS) results: Wave 15 (21 September to 4 October 2020).

## Ffigur 2: Tystiolaeth o amhariad parhaus ar fasnach i fusnesau'r DU yn sgil pandemig y coronafeirws

Canran o fusnesau'r DU sy'n masnachu ar hyn o bryd ac sydd wedi allforio yn y 12 mis diwethaf, yn ôl diwydiant, wedi'u pwysoli yn ôl cyfrif (21 Medi i 4 Hydref 2020)



Nodyn: Efallai na fydd rhesi'n adio i 100% oherwydd talgrynnu. Gofynnwyd i fusnesau am eu profiadau yn y cyfnod cyfeirio, 21 Medi i 4 Hydref 2020. Ond, ar gyfer cwestiynau am y pythefnos diwethaf, gall busnesau ymateb o'r adeg yr oeddent yn llenwi'r holiadur (5 i 18 Hydref 2020). Ffynhonnell: ONS (BICS)

Er bod yr argyfwng ariannol byd-eang diwethaf wedi arwain at ddefnyddio rhai polisïau diffyndollol (gyda chwmnïau yn rhoi tariffau ar nwyddau penodol), ystyriwyd bod y mesurau hyn yn dal i fod wedi cyfrannu rhywfaint at ostyngiad ym masnach y byd.<sup>37</sup> Amser a ddengys sut bydd cwmnïau yn ymateb ar ôl yr argyfwng hwn, gyda rhai wedi bod yn cwestiynu cadernid y cadwyni cyflenwi byd-eang. Os bydd gwledydd yn symud yn fyd-eang tuag at ddilyn polisïau masnach diffyndollol neu'n ceisio ail-berchnogi elfennau o'r cadwyni cyflenwi presennol, mae'n debygol y byddai hyn yn gostwng lefelau masnach byd-eang a gallai beri niwed i allforwyr yng Nghymru.

<sup>37</sup> Zymek, R. (2020, Mai 23). What happens to trade in a global downturn?

# MAES BLAENORIAETH 2: Lleihau'r Ffactorau sy'n Arwain at Anghydraddoldeb Economaidd

---

## Y Cyd-destun

Ar ôl yr argyfwng ariannol byd-eang yn 2008/9, cafwyd diffyg twf mewn cyflogau cyfartalog wythnosol ym Mhrydain Fawr, ac ni lwyddodd i gyd-fynd â chwyddiant am sawl blwyddyn wedi hynny. Dim ond yn ystod chwarter olaf 2019 y cyrhaeddodd cyflogau go iawn eu lefelau cyn yr argyfwng ariannol byd-eang.<sup>38</sup>

Disgwylir i ddiweithdra gynyddu ar ôl dirywiadau economaidd, fel y gwnaeth yng Nghymru yn y blynyddoedd ar ôl yr argyfwng ariannol byd-eang. Yn ogystal â chynnydd cyffredinol mewn lefelau diweithdra, ceir cynnydd yng nghyfran y rhai hynny sydd yn ddi-waith yn y tymor hir. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2008, roedd 24.3% o bobl ddi-waith yng Nghymru wedi bod yn ddi-waith am 12 mis neu fwy. Erbyn 2013, roedd y ffigur hwnnw wedi codi i 34.9% - ac roedd y lefel wedi mwy na dyblu o 19,200 i 42,100.<sup>39</sup>

## Effaith ar y farchnad lafur

Cynyddodd y gyfradd ddiweithdra 1.9 pwynt canran i 4.6% yn y tri mis hyd at fis Medi 2020 (Chwarter 3) ers y chwarter blaenorol ac mae wedi cynyddu 0.8 pwynt canran yn ystod y flwyddyn. Dyma'r cynnydd chwarterol mwyaf ers i'r cofnodion ddechrau yn 1992. Cynyddodd y gyfradd ddiweithdra ar gyfer y DU gyfan 0.7 pwynt canran i 4.8% yn ystod y chwarter, a 0.9 pwynt canran yn ystod y flwyddyn. Hefyd, gwnaeth y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru ostwng 2.5 pwynt canran yn y trydydd chwarter i 72.1%, sef y gostyngiad chwarterol mwyaf ers i'r cofnodion ddechrau. Gwnaeth ostwng 1.8 pwynt canran ar gyfer y flwyddyn. Yn y DU gyfan, gwnaeth y gyfradd gyflogaeth ostwng 0.6 pwynt canran yn y trydydd chwarter i 75.3%.<sup>40</sup>

Mae'n debygol y byddai diweithdra yn llawer uwch heb y cymorth incwm digynsail sydd wedi'i ddarparu drwy gydol yr argyfwng, sef yn benodol cynlluniau Llywodraeth y DU: y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (JRS) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod y Coronafeirws (SEISS). Yn achos JRS, mae Llywodraeth y DU yn talu 80% o gyflog gweithwyr na all weithio ac sydd ar ffyrlo (gan roi'r dewis i'r cyflogwr dalu gweddill y cyflog, os yw'n dymuno). Ar 31 Awst 2020, roedd 130,400 o gyflogaethau yng Nghymru

---

<sup>38</sup> ONS. (2020, Medi 15). Average weekly earnings, taken from Monthly Wages and Salaries Survey.

<sup>39</sup> StatsCymru. (2020, Medi 24). Diweithdra yng Nghymru a'r DU fesul hyd a blwyddyn

<sup>40</sup> Llywodraeth Cymru (2020, Tachwedd 10). Ystadegau economaidd allweddol: Tachwedd 2020.



ar ffyrlo o dan JRS, cyfradd ddefnydd o 10%; sydd, yn fras, yn debyg i'r gyfradd ddefnydd ledled y DU.<sup>41</sup> Y bwriad gwreiddiol oedd dod â JRS i ben ym mis Hydref ond mae Llywodraeth y DU wedi estyn y cynllun ledled y DU tan fis Mawrth, mewn ymateb i gynnydd yn nifer yr achosion a chyfyngiadau cenedlaethol newydd.

Er y mesurau cymorth incwm a gyflwynwyd, mae tystiolaeth bod effaith eisoes wedi bod ar y farchnad lafur yng Nghymru. Mae data sydd wedi cael eu rhyddhau'n ddiweddar ynghylch nifer y gweithwyr ar gyflogres yng Nghymru (hynny yw, data Talu Wrth Ennill, heb gynnwys grwpiau fel pobl hunangyflogedig, nad ydynt ar gyflogres) yn rhoi amcangyfrif cynnar bod nifer y gweithwyr wedi gostwng 27,100 (2.1%) ers mis Chwefror 2020. Er bod hwn yn gryn ostyngiad, mae rhywfaint o dystiolaeth o dwf wedi bod ym mis Awst a mis Medi oherwydd roedd y ffigurau'n is ym mis Gorffennaf (lle'r oedd y gostyngiad yn 29,700 neu'n 2.4% ers mis Chwefror).<sup>42</sup>

Gall lefelau swyddi gwag roi cipolwg defnyddiol inni ar effaith bosibl y pandemig ar ddynameg y farchnad lafur yng Nghymru hefyd. Yn wythnos gyntaf mis Tachwedd, roedd nifer yr hysbysebion swyddi ar-lein dros 23.3% yn is yng Nghymru o'i gymharu â'r lefel wythnosol gyfartalog yn 2019. Er bod hyn yn gryn ostyngiad, roedd yn llai difrifol na'r gostyngiad a welwyd ar gyfer y DU gyfan, sef gostyngiad o 33.2% mewn swyddi gwag wythnosol.<sup>43</sup>

Yn ôl data a gyhoeddwyd ar y cyd gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r ONS ar 13 Hydref, mae cyflog misol cyfartalog (canolrif) cyflogeion ar gyflogres yng Nghymru wedi bod yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig ers mis Mehefin 2020. Mae amcangyfrifon cynnar ar gyfer mis Medi yn awgrymu bod cyflog canolrifol yn £1800, £64 yn uwch na mis Chwefror eleni. O'i gymharu â'r un mis yn y flwyddyn flaenorol, roedd hyn yn gynnydd o 5.6% mewn cyflog misol, sef yr uchaf a gofnodwyd o blith gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr.<sup>44</sup> Ond, rhwng mis Chwefror a mis Awst, roedd cyflogau'r sector cyhoeddus wedi codi ddwywaith mor gyflym â chyflogau'r sector preifat (1.8% o'i gymharu â 0.9%) ac mae'r rhagolygon cynnar yn awgrymu y bydd y patrwm hwn yn parhau yn ystod y misoedd nesaf.<sup>45</sup> Mae risg o hyd y ceir effaith negyddol ar dwf cyflogau'r sector preifat ar ôl y pandemig wrth i ddyledion gwasanaeth cwmnïau Gronni yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r effeithiau yn y farchnad lafur eisoes wedi amharu'n fwy ar weithwyr yn y sectorau yr effeithiodd pandemig y coronafeirws fwyaf arnynt, megis lletygarwch a hamdden. Mae gweithwyr yn y sectorau hyn yn fwy tebygol o fod ar ffyrlo neu

<sup>41</sup> Llywodraeth Cymru (2020). Ystadegau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod y Coronafeirws: 30 Medi 2020.

<sup>42</sup> Llywodraeth Cymru. (2020). Ystadegau Economaidd Allweddol - Hydref 2020.

<sup>43</sup> ONS. (2020, Tachwedd 12). Coronavirus and the latest indicators for the UK economy and society: 12 November

<sup>44</sup> Llywodraeth Cymru. (2020). Ystadegau Economaidd Allweddol - Hydref 2020.

<sup>45</sup> NIESR. (2020, Hydref 13). NIESR Wage Tracker - Hydref 2020.

mae'n fwy tebygol nad ydynt yn gweithio, o'u cymharu â rhannau eraill o'r economi.<sup>46</sup> Awgrymodd tystiolaeth o arolwg ym mis Medi fod gweithwyr o'r sectorau yr effeithiwyd waethaf arnynt (naill ai mewn cyflogaeth neu'r rhai a oedd yn gweithio yn y sectorau hynny cyn dechrau'r pandemig) yn dal i fod yn fwy tebygol o fod yn chwilio am waith yn yr un sectorau hynny.<sup>47</sup> Er nad yw rhagolygon economaidd y sectorau hyn yn y dyfodol yn glir o hyd, mae'n bosibl bod dynameg yr argyfwng yn cynyddu'r angen i weithwyr symud ar draws sectorau, er mwyn gwella eu rhagolygon cyflogaeth. Bydd pa mor hawdd y bydd gweithwyr yn gallu gwneud hynny yn amrywio, ond mae'n bosibl y bydd angen cymorth cyflogaeth ac ailhyfforddiant.

## Effaith wahaniaethol

Oherwydd sectorau'r economi y mae'r cyfyngiadau wedi cael yr effaith fwyaf arnynt ac oherwydd natur y cymorth incwm a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU, mae pandemig y coronafeirws, at ei gilydd, wedi cael effaith negyddol anghymesur ar grwpiau lleiafrifol.<sup>48</sup> Mae'r un effaith wahaniaethol i'w gweld yng Nghymru i bob golwg, gyda'r tlotaf, yr ieuengaf, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, menywod, a'r rhai ag anabled y cael eu cynrychioli fwy yn y sectorau o dan gyfyngiadau.<sup>49</sup>

Mae effeithiau'r argyfwng ar bobl ifanc (yn y farchnad lafur neu wrth iddynt ddechrau arni yn y farchnad lafur) yn peri pryder penodol o ystyried y goblygiadau hirdymor i genedlaethau blaenorol o bobl ifanc yn sgil cyfnodau o ddirywiad economaidd. Roedd tystiolaeth arolwg diweddar ymysg gweithwyr yn y DU ym mis Medi yn awgrymu bod pobl 18-24 mlwydd oed yn fwy tebygol nag unrhyw grŵp oedran arall i fod heb waith mwyach, ar ffyrlo (yn rhannol neu'n llawn), neu wedi colli oriau gwaith oherwydd effeithiau'r coronafeirws.<sup>50</sup> Roedd hyn hefyd yn amlwg ymysg y rhai mewn gwaith ansicr (sydd, yn ogystal â phobl ifanc, yn fwy tebygol o fod yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r rhai ar y cyflogau isaf).<sup>51</sup>

Mae'r coronafeirws wedi cael effaith wahaniaethol ar leoliadau addysg yn ogystal â'r farchnad lafur. Collodd myfyrwyr prifysgol o gefndiroedd incwm is fwy o oriau

---

<sup>46</sup> Brewer, M., Cominetti, N., Henehan, K., McCurdy, C., Sehmi, R., a Slaughter, H. (2020) Jobs, Jobs, Jobs: Evaluating the effects of the current economic crisis on the UK labour market. Resolution Foundation.

<sup>47</sup> Ibid.

<sup>48</sup> Brewer, M. (2020, Medi). What are the effects of Covid-19 on poverty and inequality? Cyrchwyd o: Economics Observatory: <https://www.coronavirusandtheeconomy.com/question/what-are-effects-covid-19-poverty-and-inequality>

<sup>49</sup> Ifan, G., Siôn, C., Rodriguez, J., a Phillips, D. (2020, Hydref 8). How is coronavirus affecting the Welsh economy? Cyrchwyd o: Economics Observatory: <https://www.coronavirusandtheeconomy.com/question/how-coronavirus-affecting-welsh-economy>

<sup>50</sup> Brewer, M., Cominetti, N., Henehan, K., McCurdy, C., Sehmi, R., a Slaughter, H. (2020) Jobs, Jobs, Jobs: Evaluating the effects of the current economic crisis on the UK labour market. Resolution Foundation.

<sup>51</sup> Ibid.



addysgu o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud na'r myfyrwyr hynny o'r grwpiau incwm uchaf (52% o'i gymharu â 40%). Hefyd, roedd disgyblion ysgolion gwladol yn llawer llai tebygol o gael budd o ddiwrnodau ysgol llawn yn ystod y cyfyngiadau na'r rhai mewn ysgolion preifat (38% o'i gymharu â 74%). Mae hyn yn arwain at bryderon y gallai'r effaith ddsbarthiadol hon, ynghyd â'r effaith ar lafur ac addysg, leihau symudedd cymdeithasol pobl ifanc o deuluoedd tlotach.<sup>52</sup>

Gallai effeithiau o'r fath arwain at ganlyniadau tymor hir. Mae gwaith ymchwil ychwanegol wedi rhag-weld effaith negyddol ar symudedd cymdeithasol plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach a'u potensial o ran ennill cyflog. Mae disgwyl i'r effeithiau hyn fod yn arbennig o amlwg ymhlith y rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, na fyddant yn mynd i brifysgol ar ôl gadael ysgol.<sup>53</sup>

## Cyllid teuluoedd

I ddechrau, roedd yn ymddangos bod aelwydydd yn y DU wedi gwario llai a chynyddu lefelau cynilo mewn ymateb i'r mesurau diogelu iechyd. Roedd cymhareb cynilo aelwydydd y DU (cyfran incwm gwario aelwydydd sy'n cael ei gynilo) wedi cynyddu i'r ffigur uchaf erioed, sef 29.1% yn ystod ail chwarter 2020 – cynnydd cyflym o'i gymharu â'r gyfradd o 9.6% yn ystod y chwarter cyntaf.<sup>54</sup>

Fodd bynnag, er bod cymhareb cynilo aelwydydd wedi cynyddu'n gyflym yn ystod ail chwarter 2020, mae rheswm dros amau nad yw'r effaith ar gyllid teuluoedd wedi bod yr un fath i bawb. Mae gwaith ymchwil gan y Resolution Foundation yn awgrymu bod aelwydydd incwm uwch dros ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi cynilo mwy nag aelwydydd incwm isel ym mis Mai, pan ofynnwyd iddynt gymharu eu cyfraddau cynilo cyn y coronafeirws; roedd aelwydydd incwm isel hefyd yn fwy tebygol o fod wedi mynd ati i gynilo llai na'r arfer nag aelwydydd incwm uwch.<sup>55</sup> Yn dilyn hyn, roedd y teuluoedd hynny a oedd â'r lefelau isaf o gynilion cyn yr argyfwng hefyd yn llai tebygol o fod yn cynilo ym mis Mai.

Yn ôl y disgwyl, efallai, wrth ystyried y darlun dosbarthiadol ar gyfer aelwydydd yn cynilo, mae gwaith ymchwil yn awgrymu mai aelwydydd incwm is a chanol oedd y mwyaf tebygol o fod yn gwario cynilion yr oedd ganddynt yn barod a/neu yn mynd i fwy o ddyled ers dechrau'r coronafeirws, yn hytrach nag aelwydydd incwm uwch.<sup>56</sup>

---

<sup>52</sup> Major, L. E., Eyles, A., a Machin, S. (2020). Generation COVID: Emerging Work and Education Inequalities . Y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd.

<sup>53</sup> Halterbeck, M., Conlon, G., Patrignani, P., a Pritchard, A. (2020). Lost Learnings, Lost Earnings. London Economics (ar ran The Sutton Trust).

<sup>54</sup> ONS. (2020, Medi 30). GDP quarterly national accounts, UK: April to June 2020.

<sup>55</sup> Bangham, G., a Leslie, J. (2020). Rainy days: an audit of household wealth and initial effects of the coronavirus crisis on saving and spending in Great Britain. Resolution Foundation.

<sup>56</sup> Brewer, M., Corlett, A., Handscomb, K., McCurdy, C., a Tomlinson, D. (2020). The Living Standards Audit 2020. Resolution Foundation.


Roedd data o fis Gorffennaf yn awgrymu bod oedolion o dan 60 oed ym Mhrydain Fawr yn llai tebygol o fod yn gallu talu costau annisgwyl o £850 na'r rhai 60 oed a hŷn (41.6% o'r rhai 30-59 oed, 36.5% o'r rhai o dan 30 oed, ac 16.1% o'r rhai 60 oed a hŷn). Mae'n ymddangos bod oedolion sydd â phlant yn arbennig o agored i gael sioc ariannol, gyda 47.5% yn dweud na fyddent yn gallu talu cost annisgwyl o £850 a thua un o bob pump (22%) yn dweud eu bod wedi gorfod benthg neu ddefnyddio cynnyrch credyd fwy na chyn pandemig y coronafeirws.<sup>57</sup>

## Y system fudd-daliadau

Ym mis Ebrill, ymddengys fod cynnydd sydyn wedi bod yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru. Roedd wedi cynyddu 3 phwynt canran ers mis Mawrth (3.9% i 6.9%).<sup>58</sup> Roedd y gyfradd yn 7.9% erbyn mis Medi.<sup>59</sup> Mae canran y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn dal i fod yn llawer uwch ar gyfer dynion na menywod, fel y mae wedi bod yn hanesyddol (roedd yn 9.2% i ddynion a 6.4% i fenywod ym mis Medi). Mae'r cynnydd hwn wedi digwydd yn llawer cyflymach ac mae wedi cynyddu'n uwch nag yn ystod y dirwasgiad economaidd diwethaf i gyd nac yn ystod yr adferiad dilynol yn y DU.

### Ffigur 3: Cynnydd sydyn yn y nifer sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru

Cyfradd hawlio budd-daliadau yng Nghymru (ystadegyn arbrofol)



Nodyn: Mae'r gyfradd arbrofol hawlio budd-daliadau yn cynnwys y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a Chredyd Cynhwysol. Y rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol sydd wedi'u cynnwys yw 1) y rhai a gofnodwyd fel ddim mewn cyflogaeth (Mai 2013-Ebrill 2015), a 2) y rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol y mae'n ofynnol iddynt chwilio am waith, hy o fewn y drefn amodoldeb Chwilio am Waith fel y'i diffinnir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (o fis Ebrill 2015 ymlaen); Enwadur = Cyfrif Hawlwyr + Swyddi gweithlu; dros dro yw data mis Medi 2020  
Ffynhonnell: ONS (HI10-8 Claimant Count [Experimental Statistic])

<sup>57</sup> ONS. (2020, Medi 10). Personal and economic well-being in Great Britain: September 2020.

<sup>58</sup> Sylwer bod hyn yn ôl ystadegyn ONS arbrofol (gweler Ffigur 3). ONS. (2020, Hydref 13). HI10 Regional labour market: Headline indicators for Wales.

<sup>59</sup> Dros dro yw data mis Medi 2020.

Ar ddechrau'r ymateb i'r pandemig, cododd Llywodraeth y DU lwfans safonol Credyd Cynhwysol £20 yr wythnos, a oedd yn cyfateb i gynnydd o £1,040 y flwyddyn – cynnydd dros dro yw hwn a bydd yn dod i ben ym mis Ebrill 2021. Cyflwynwyd gwelliannau i fudd-daliadau eraill hefyd, er enghraifft, codi cyfraddau Lwfans Tai Lleol er mwyn iddynt gyd-fynd â 30ain canradd rhent ym mhob ardal leol.

Mae gwaith dadansoddi gan y Resolution Foundation yn awgrymu, er y bydd codi Credyd Cynhwysol yn lleddfu rhywfaint ar yr ergyd economaidd i deuluoedd lle mae aelod o'r cartref yn dod yn ddi-waith, ni fydd yn atal toriadau dwfn mewn incwm ar gyfer nifer o aelwydydd. Byddai aelwydydd un person yn cael tua 30% o'u hincwm ar gyfartaledd yn y DU pe byddent yn cael eu gorfodi i roi'r gorau i weithio a hawlio budd-daliadau; mae'r ffigur hwn ar gyfer cyplau ychydig yn uwch na 50%.<sup>60</sup>

---

<sup>60</sup> Brewer, M., a Handscomb, K. (2020). This time is different – Universal Credit's first recession. Resolution Foundation.

# MAES BLAENORIAETH 3: Cefnogi'r Broses o Bontio i Economi Ddi-garbon

---

## Effaith y pandemig ar allyriadau

Mae'r pandemig, a'r ymateb polisi byd-eang cysylltiedig, wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn masnach, teithio a chynnyrch ar draws y byd, ac o ganlyniad, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn allyriadau yn ystod hanner cyntaf 2020.<sup>61</sup> Amcangyfrifir y gallai allyriadau byd-eang cyfwerth â CO2 ostwng cymaint ag 8% eleni. Dyma fyddai'r gostyngiad mwyaf i'w gofnodi erioed o un flwyddyn i'r llall.<sup>62</sup> Er gwaethaf hyn, mae gostyngiadau mewn allyriadau mewn un flwyddyn yn llai pwysig o ran atal canlyniadau gwaethaf posibl newid yn yr hinsawdd, o'u cymharu â lleihau lefelau allyriadau cronol.<sup>63</sup>

Roedd dadansoddiad o ansawdd aer Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, yn awgrymu bod crynodiad llygryddion aer wedi gostwng o ganlyniad i'r rheoliadau a'r cyfyngiadau a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datgan bod profi effaith y cyfyngiadau symud ar ansawdd aer a chysylltiad pobl â hynny, yn gymhleth ac yn heriol. Aeth ymlaen i ddweud y gallai gostyngiadau cyson mewn allyriadau llygryddion aer sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth (oherwydd bod mwy o bobl yn aros gartref ac yn teithio llai) gael eu gwrthbwyso â chynnydd mewn llygryddion awyr agored eraill yn ogystal â chynnydd posibl mewn dod i gysylltiad â llygryddion aer o dan do.<sup>64</sup>

## Buddsoddi mewn dyfodol di-garbon

Fel nodwyd yn flaenorol, mae pandemig y coronafeirws wedi arwain at ostyngiad mawr mewn gwariant buddsoddi busnesau yn ystod yr ail chwarter eleni. Gall gostyngiadau o'r fath mewn buddsoddi o bosibl arwain at oedi a lleihau graddfa gwariant busnesau ar y technolegau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn lleihau allyriadau. Gall llai o fuddsoddi arafu pa mor gyflym mae dulliau arloesi yn gwella o ran cost ac effeithlonrwydd hefyd.<sup>65</sup> Er enghraifft, mae natur gyflenwol nifer o'r

---

<sup>61</sup> Engineering & Technology. (2020, Hydref 15). Largest CO2 emissions drop in history due to Covid-19 pandemic. Cyrchwyd o <https://eandt.theiet.org/content/articles/2020/10/covid-19-pandemic-caused-largest-co2-drop-in-history/>

<sup>62</sup> IEA. (2020, Ebrill). Global Energy Review 2020. Cyrchwyd o <https://www.iea.org/reports/global-energy-review-2020>

<sup>63</sup> Matthews, H. D., Zickfeld, K., Knutti, R., ac Allen, M. R. (2018). Focus on cumulative emissions, global carbon budgets and the implications for climate mitigation targets. *Environmental Research Letters*, 13(1).

<sup>64</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2020). Air pollution impacts of Covid-19 response (Wales): A public health opinion.

<sup>65</sup> Comerford, D. (2020, Gorffennaf 18). Can recovery from Covid-19 help transition to a zero-carbon economy? Cyrchwyd o: Economics Observatory:

technolegau, fel storio a chynhyrchu ynni, yn rhwystr bosibl o ran buddsoddiad isel mewn cyflwyno seilwaith di-garbon; felly gall gostyngiad mewn buddsoddiad mewn un dechnoleg olygu nad yw buddsoddi mewn technolegau eraill yn ymddangos mor apelgar. Gall gostyngiad mewn buddsoddiad busnes atal y diwydiant rhag datblygu dulliau mwy effeithlon a chynaliadwy o gynhyrchu hefyd.

Os bydd amodau ar ôl y pandemig yn arwain at lefelau isel o fuddsoddiad busnes a chyfraddau diweithdra uchel, mae'n bosibl y byddai lefelau uwch o fuddsoddiad cyhoeddus mewn technolegau gwyrdd yn ddymunol, ac yn angenrheidiol hefyd, er mwyn llwyddo i symud tuag at economi ddi-garbon. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n llai tebygol y bydd y sector cyhoeddus yn gwthio buddsoddiad y sector preifat allan.<sup>66</sup>

## Trafnidiaeth a newid moddol

Efallai ei bod hi'n rhy gynnar penderfynu pa effaith yn union y bydd y coronafeirws yn ei chael ar drafnidiaeth ar ôl y pandemig. Mae'n bosibl y bydd mwy o weithio o bell a defnyddio rhagor o gyfleusterau telegynadleda yn arwain at lai o alw am drafnidiaeth a thanwydd, ac o ganlyniad i hynny, bydd allyriadau teithio yn lleihau. Yn yr un modd, gallai gael ei wrthbwysu'n llawn neu'n rhannol gan gynnydd yn y defnydd o ynni preswyl (wrth i weithwyr aros gartref drwy'r dydd).

Er bod yr angen i gadw at fesurau cadw pellter cymdeithasol ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cyfyngu ar gapasiti effeithiol ar hyn o bryd, gallai realiti'r byd ar ôl y pandemig gael effaith negyddol ar sut mae teithwyr yn teimlo ynghylch defnyddio trafndiaeth ar y cyd. Mae data teithio ar gyfer Prydain Fawr gan Adran Drafnidiaeth y DU yn awgrymu bod lefelau teithio mewn car wedi bron â dychwelyd at y lefelau cyn y pandemig erbyn wythnos olaf mis Awst (pan oedd llawer o'r cyfyngiadau wedi'u llacio), ond bod y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, megis trenau a bysiau, yn llawer is o hyd – gyda lefelau yn ystod yr wythnos tua 60% yn is ar gyfer National Rail.<sup>67</sup> Mae defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ar lefel is na'r capasiti sydd ar gael yn cynyddu, i bob pwrpas, lefel yr allyriadau fesul teithiwr (gyda llai o deithwyr yn cael eu cludo fesul taith).<sup>68</sup>

---

<https://www.coronavirusandtheeconomy.com/question/can-recovery-coronavirus-help-transition-zero-carbon-economy>

<sup>66</sup> Comerford, D. (2020, Gorffennaf 18). Can recovery from Covid-19 help transition to a zero-carbon economy? Cyrchwyd o: Economics Observatory:

<https://www.coronavirusandtheeconomy.com/question/can-recovery-coronavirus-help-transition-zero-carbon-economy>

<sup>67</sup> *Yn seiliedig ar ddiwrnod/wythnos gyfatebol*. Adran Drafnidiaeth y DU (2020, Tachwedd 4). Transport use during the coronavirus (COVID-19) pandemic. Cyrchwyd o wefan Llywodraeth y DU:

<https://www.gov.uk/government/statistics/transport-use-during-the-coronavirus-covid-19-pandemic>

<sup>68</sup> Air Quality News (2020, Gorffennaf 24). Social distancing is making public transport worse for the environment. Cyrchwyd o: <https://airqualitynews.com/2020/07/24/social-distancing-is-making-public-transport-worse-for-the-environment-than-car/>

Mae data yn awgrymu, wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio ym Mhrydain Fawr yng nghanol y flwyddyn, bod cyfran y gweithwyr a oedd yn gweithio gartref yn unig, wedi gostwng o 38% yng nghanol mis Mehefin i 20% erbyn diwedd mis Awst (ond mae tystiolaeth bod y gyfran yn codi eto ym mis Medi wrth i nifer yr achosion gynyddu). Roedd nifer y gweithwyr a oedd yn teithio i'r gwaith yn unig wedi cynyddu yn ystod yr un cyfnod. Ers diwedd mis Mai, mae cyfran y gweithwyr sy'n gweithio gartref ac sy'n teithio i'r gwaith wedi aros yn weddol gyson, sef tua un o bob deg.<sup>69</sup>

Fel y nodwyd yn flaenorol, er bod lefelau gweithio gartref yn debygol o ostwng yn gymharol i'r rheini a welwyd pan oedd y pandemig ar ei anterth, mae'n debyg hefyd y bydd cyfran y gweithwyr sy'n gweithio eu holl oriau gwaith, neu rywfaint o'u horiau gwaith gartref, yn cynyddu. Bydd yn bwysig monitro'r effaith a gaiff hyn ar y math o gytrefi y bydd pobl yn dewis byw ynddynt yn y dyfodol. Os bydd aelwydydd yn mynd ati fwyfwy i ddewis llety sy'n cynnig mwy o le, mae'n bosibl y bydd ardaloedd trefol dwys eu poblogaeth yn dod yn llai deniadol. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn lefelau allyriadau, oherwydd yr allyriadau uwch sy'n gysylltiedig â thai a thrafnidiaeth mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth is.<sup>70</sup> Fodd bynnag, gallai'r newidiadau hyn gael eu lliniaru gan gynnydd yn y defnydd o gerbydau dim allyriadau.

---

<sup>69</sup> ONS. (2020, Hydref 2). Coronavirus and the social impacts on Great Britain: 2 October 2020.

<sup>70</sup> BBC (2019) Are cities bad for the environment?. Cyrchwyd o: <https://www.bbc.co.uk/news/science-environment-49639003>

# MAES BLAENORIAETH 4:

## Cymunedau Iachach, Tecach a Mwy Cynaliadwy

---

### Effaith ar iechyd

Mae pandemig y coronafeirws wedi tynnu sylw at yr anghydraddoldebau iechyd a oedd eisoes yn bodoli. Er enghraifft, mae'r data disgwyliad oes diweddaraf ar gyfer Cymru ar gyfer y cyfnod 2016 i 2018 yn amcangyfrif bod y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes adeg genedigaeth rhwng y degradd lleiaf difreintiedig a'r degradd mwyaf difreintiedig yn naw mlynedd i ddynion ac wyth mlynedd i fenywod.<sup>71</sup> Mae'r gwahaniaeth yn y disgwyliad oes iach (nifer y blynyddoedd y mae disgwyl i unigolyn barhau i fod mewn iechyd "da" adeg genedigaeth) a amcangyfrifir yn hyd yn oed mwy llym, sef 18 mlynedd i ddynion ac 20 mlynedd i fenywod, rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig.<sup>72</sup>

Mae pandemig y coronafeirws a'r ymateb polisi iechyd wedi arwain at bryderon ynghylch mwy o bobl yn teimlo'n unig, yn ynysig, yn orbryderus ac yn cael problemau iechyd meddwl eraill. Roedd dadansoddiad yr ONS ar gyfer Prydain Fawr yn cymharu cyfraddau iselder ym mis Mehefin eleni â'r cyfnod yn union cyn y pandemig (Gorffennaf 2019-Mawrth 2020). Canfu fod cyfran y bobl a oedd yn profi rhyw ffurf ar iselder, ar sail symptomau cymedrol i ddifrifol, wedi bron iawn â dyblu o un ym mhob deg (9.7%) i un o bob pump (19.2%). Gwelodd oedolion iau (16-39 oed) gynnydd nodedig yn y rhai a oedd yn profi rhyw ffurf ar iselder, gydag un o bob tri (31%) yn cael symptomau cymedrol i ddifrifol yn ystod y pandemig, o'i gymharu ag un o bob naw (10.9%) cyn hynny. Cafwyd effaith anghymesur ar fenywod, pobl anabl, pobl oedran gwaith nad oeddent yn gweithio ar y pryd, pobl yn byw ar eu pen eu hunain, a phobl nad oeddent yn gallu fforddio costau annisgwyl o £850 hefyd.<sup>73</sup> Mae canlyniadau economaidd y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar nifer o'r grwpiau hyn hyd yma hefyd. Ym mis Ebrill, canfu Iechyd Cyhoeddus Cymru anghydraddoldebau iechyd meddwl rhwng preswylwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phreswylwyr gwyn yng Nghymru yn ystod y pandemig. Roedd preswylwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o deimlo gorbryder, teimlo'n ynysig, a phoeni am eu hiechyd meddwl ac am golli eu swydd/methu â dod o hyd i swydd.<sup>74</sup>

---

<sup>71</sup> ONS. (2020, Mawrth 27). Health state life expectancies by Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD 2014 and WIMD 2019), Wales, all ages.

<sup>72</sup> Mae'r gwahaniaeth ar gyfer y degradd mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig yn ôl WIMD 2014 a WIMD 2019. Mae disgwyliad oes dynion adeg genedigaeth yn 73 ar gyfer y mwyaf difreintiedig ac yn 82 ar gyfer y lleiaf difreintiedig. Mae'r disgwyliad oes iach yn 52 a 70. Mae disgwyliad oes menywod adeg genedigaeth yn 78 ar gyfer y mwyaf difreintiedig ac yn 86 ar gyfer y lleiaf difreintiedig. Mae'r disgwyliad oes iach yn 50 a 70.

<sup>73</sup> ONS (2020, Awst 18). Coronavirus and depression in adults, Great Britain: June 2020.

<sup>74</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru (2020). Sut rydym yn gwneud yng Nghymru? Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws: Canolbwyntio ar ethnigrwydd.




Yn sgil tystiolaeth bod diweithdra yn dechrau cynyddu, a'r bygythiad o gynydd mwy yn y dyfodol, mae'n bwysig cydnabod y cysylltiad rhwng diweithdra ac iechyd. Mae astudiaethau byd-eang wedi canfod bod nifer o ddangosyddion iechyd meddwl gwael (fel iselder, gorbryder, lles goddrychol, a hunan-barch) wedi bod yn fwy amlwg ymhlith pobl ddi-waith na'r bobl sy'n gweithio. Roedd un adolygiad o astudiaethau cyfredol a gynhaliwyd yn 2009 yn dweud bod diweithdra yn debygol o gyfrannu at iechyd meddwl gwael.<sup>75</sup>

Mae rhai astudiaethau wedi canfod bod effeithiau negyddol diweithdra ar iechyd yn cynyddu yn ôl hyd cyfnod yr unigolyn yn ddi-waith. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dal i amrywio. Mae sut mae unigolion yn ymateb i ddiweithdra tymor hir yn amrywio, ac mae'r canlyniadau iechyd yn cynyddu yn ôl hyd i rai ac mae'n arwain at addasu i eraill. Canfuwyd bod menywod yn fwy tebygol o ymateb i ddiweithdra tymor hir yn ôl hyd na dynion. Mae dynion yn fwy tebygol o addasu.<sup>76</sup>

#### **Ffigur 4: Cynyddodd diweithdra hirdymor yn gyffredinol, ac fel cyfran o bob diweithdra, yn y blynyddoedd ar ôl dirwasgiad mawr 2008/9**

*Diweithdra yng Nghymru, yn ôl hyd a blwyddyn*



Roedd diweithdra tymor hir wedi cynyddu yng Nghymru yn y blynyddoedd ar ôl y dirwasgiad diwethaf yn 2008/9, yn gyffredinol ac fel cyfran o'r holl bobl a oedd yn ddi-waith. Yn 2007, roedd nifer y bobl a oedd wedi bod yn ddi-waith am 12 mis neu fwy yn 17,500, sef 22.9% o'r holl bobl ddi-waith; erbyn 2013 roedd y ffigur

<sup>75</sup> Karsten, P., a Moser, K. (2009). Unemployment impairs mental health: Meta-analyses. *Journal of Vocational Behaviour*, 74(3), 264-282.

<sup>76</sup> Y Sefydliad Iechyd. (n.d.). Employment and unemployment: How does it affect our health? Cyrchwyd o <https://www.health.org.uk/news-and-comment/charts-and-infographics/unemployment>



hwn wedi codi i 42,100, sef 34.9% o'r holl bobl ddi-waith, cyn disgyn eto yn y blynyddoedd dilynol.<sup>77</sup>

Yn ogystal, yn sgil pandemig y coronafeirws mae rhai wedi tynnu sylw at rôl bosibl ansawdd tai a thai gorlawn mewn marwolaethau cysylltiedig â COVID-19. Mae perthynas wedi'i nodi rhwng cyfraddau marwolaethau COVID-19 a thai gorlawn, nifer y tai amlfeddiannaeth, a phrinder tai cymdeithasol.<sup>78</sup>

## Effaith ar y Gymraeg

Hyd yma, nid oes dadansoddiad manwl cynhwysfawr o'r effaith y mae pandemig y coronafeirws ac ymateb iechyd y cyhoedd wedi'i chael ar bob agwedd ar y Gymraeg. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal arolwg yn ddiweddar i fesur effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg.<sup>79</sup> Disgwylir cyhoeddi canfyddiadau'r arolwg cyn diwedd 2020.

Mae'n debygol iawn bod y mesurau diogelu iechyd a gyflwynwyd wedi arwain at leihau nifer y lleoliadau lle mae pobl yn cael cyfle i siarad ac ymarfer y Gymraeg, oherwydd y cyfyngiadau y mae hyn wedi'i olygu ar symud a phobl yn dod at ei gilydd. Mae'n debygol bod cau ysgolion wedi cael effaith wahanol ar siaradwyr a dysgwyr. Efallai nad oes gan y rheini sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg, er enghraifft, rieni sy'n rhugl, neu sy'n teimlo'n gyfforddus yn siarad Cymraeg gartref. Fodd bynnag, nid yw'r effaith hirdymor yn glir ar hyn o bryd.

## Mynediad i'r rhyngrwyd

Gyda mwy a mwy yn gorfod gweithio gartref a symud nifer o wasanaethau ar-lein, yn ogystal â'r angen i fyfyrwyr gael gafael ar adnoddau addysg hanfodol ar-lein, mae effaith peidio â chael mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref wedi cael ei dwysáu. Yn ôl data blynyddol diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019-20), nid oedd gan tua 12% o aelwydydd yng Nghymru fynediad i'r rhyngrwyd. Roedd lefelau mynediad ar draws y rhanbarthau datblygu economaidd yn debyg ar y cyfan. Roedd y gyfran uchaf o aelwydydd heb fynediad i'r rhyngrwyd yng Ngogledd Cymru, sef 13%, a'r gyfran isaf, sef 11%, yn Ne-ddwyrain Cymru.<sup>80</sup>

Roedd mynediad aelwydydd i'r rhyngrwyd yn gostwng yn ôl oedran, ar draws pob grŵp oedran. Pobl dros 75 oed oedd y grŵp oedran a oedd leiaf tebygol o

---

<sup>77</sup> Mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mehefin. Gweler: StatsCymru (2020, Medi 24). Diweithdra yng Nghymru a'r DU fesul hyd a blwyddyn

<sup>78</sup> Barker, N. (2020, Mai 29). The housing pandemic: four graphs showing the link between COVID-19 deaths and the housing crisis. Cyrchwyd o Inside Housing: <https://www.insidehousing.co.uk/insight/the-housing-pandemic-four-graphs-showing-the-link-between-covid-19-deaths-and-the-housing-crisis-66562>

<sup>79</sup> Llywodraeth Cymru. (2020, Medi 14). Datganiad i'r wasg: Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddarganfod effaith Covid-19 ar ddefnydd y Gymraeg yn gymunedol. Cyrchwyd o <https://llyw.cymru/llywodraeth-cymru-yn-awyddus-i-ddarganfod-effaith-covid-19-ar-ddefnydd-y-gymraeg-yn-gymunedol>

<sup>80</sup> Llywodraeth Cymru. (2020). Arolwg Cenedlaethol Cymru: arolwg blwyddyn lawm 2019/20 Cyrchwyd o <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau>

gael mynediad i'r rhynggrwyd. Nid oedd gan tua 41% o'r grŵp hwn fynediad i'r rhynggrwyd gartref. Roedd oedolion o oedran gweithio yn llawer mwy tebygol o gael mynediad i'r rhynggrwyd, gyda chanran y rhai 45-64 oed a 25-44 oed heb fynediad i'r rhynggrwyd yn 6% a 3% yn y drefn honno. Mae'n bosibl i bwysigrwydd cynyddol cysylltedd digidol wneud i bobl hŷn deimlo'n hyd yn oed fwy ynysig. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi mynegi pryderon, er gwaethaf y ffaith bod rhai pobl hŷn yn dewis eithrio eu hunain yn ddigidol, mae nifer yn dal i wynebu rhwystrau o ran cysylltu os ydynt yn dymuno.<sup>81</sup> Mae hyn yn cynnwys rhwystrau ariannol, diffyg sgiliau digidol, a (hyd yn oed cyn y pandemig) diffyg ffynonellau mynediad am ddim i'r rhynggrwyd yn lleol.

Mae'r ystadegyn bod pobl ddi-waith yn llai tebygol o gael mynediad i'r rhynggrwyd gartref na'r bobl a oedd yn gweithio, yn destun pryder hefyd. Nid oedd gan 14% o bobl ddi-waith fynediad i'r rhynggrwyd, o'i gymharu â 3% o bobl a oedd yn gweithio. Pobl economaidd anweithgar oedd y mwyaf tebygol o beidio â chael cysylltiad rhynggrwyd gartref, sef 21%.<sup>82</sup> Nid yn unig mae diffyg rhynggrwyd yn y cartref yn golygu bod y grwpiau hyn yn cael eu hynysu fwy, gall hefyd lesteirio gallu'r rhai di-waith i gael gafael ar gyfleoedd a chymorth yn y farchnad lafur yn hwylus.

## Effaith ofodol

Mae data ynghylch tueddiadau symudedd yn dangos gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymwelwyr yng Nghymru mewn nifer o leoliadau allweddol ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu cyflwyno i ddechrau. Serch hynny, gwella wnaeth y lefelau yn raddol (ond yn gyson) yn y misoedd dilynol. Roedd tueddiadau nifer yr ymwelwyr yn cyd-fynd yn fras â'r tueddiadau yn y DU. Roedd tystiolaeth yn dangos bod y lefelau'n gwella'n gyflymach yng Nghymru mewn rhai lleoliadau nag yn y DU (er enghraifft, lleoliadau manwerthu a hamdden a siopau bwyd a fferyllfeydd, lle gwelwyd bod y lefelau symudedd yr un fath â chyn y pandemig erbyn diwedd mis Awst). Er gwaethaf y gwahaniaeth rhwng negeseuon Llywodraeth Cymru ynghylch gweithio gartref, a negeseuon Llywodraeth y DU, roedd tueddiadau symudedd ar gyfer gweithleoedd yn cyd-fynd yn fras â'i gilydd yng Nghymru ac yn y DU gyfan.<sup>83</sup>

Roedd Centre for Towns wedi paratoi gwaith ymchwil ar ddechrau'r cyfyngiadau, yn dangos cyfran y bobl a oedd yn cael eu cyflogi mewn sectorau o dan gyfyngiadau yn ôl math y cytrefi. Ystyriwyd bod nifer y gweithlloedd mewn trefi

---

<sup>81</sup> Herklots, H. (2020, Hydref 20). Mae angen gweithredu brys a radical er mwyn cynyddu cynhwysiant digidol yng Nghymru. Cyrchwyd o Ganolfan Cydweithredol Cymru: <https://cymru.coop/mae-angen-gweithredu-brys-a-radical-er-mwyn-cynyddu-cynhwysiant-digidol-yng-nghymru/>

<sup>82</sup> Llywodraeth Cymru. (2020). Arolwg Cenedlaethol Cymru: arolwg bliwyddyn lawn 2019/20 Cyrchwyd o <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau>

<sup>83</sup> Ifan, G., Siôn, C., Rodriguez, J., a Phillips, D. (2020, Hydref 8). How is coronavirus affecting the Welsh economy? Cyrchwyd o: Economics Observatory: <https://www.coronavirusandtheeconomy.com/question/how-coronavirus-affecting-welsh-economy>

llai ychydig yn uwch mewn sectorau o dan gyfyngiadau (21.5%) na'r gweithlu mewn dinasoedd neu drefi mawr neu ganolig (19 i 19.4%). Aeth yr adroddiad ymlaen i ddweud bod lefelau gweithluoedd mewn trefi arfordirol yn uwch yn y sectorau o dan gyfyngiadau (27.8%). Enwodd yr adroddiad yr ugain tref yn y DU lle'r oedd y nifer mwyaf o bobl yn cael eu cyflogi yn y sectorau a oedd wedi cael eu cau. Roedd y rhain yn cynnwys trefi Aberystwyth, Porthcawl, Llandudno a Bae Cinmel yng Nghymru.<sup>84</sup>

---

<sup>84</sup> Centre for Towns. (2020). The effect of the COVID-19 pandemic on our towns and cities.